**Rhif:** WG29099

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Gorffennaf 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978 1 4734 6847 4

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Anelir y ddogfen hon at bawb sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer rhai ag anghenion addysgol arbennig. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen yn grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 6015<br>e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)* (2015) Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru |

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Methodoleg 3

3. Prif negeseuon 5

4. Ymatebion i'r cwestiynau 8

5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgyrchoedd 29

6. Crynodeb o ddigwyddiadau i randdeiliaid 32

7. Y camau nesaf 34

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr 35

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Bil Drafft Llywodraeth Cymru ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar gyfer ymgynghoriad ar 6 Gorffennaf 2015. Roedd y Bil drafft yn amlinellu cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r system newydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yn ogystal, cyhoeddwyd fersiwn waith ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ynghyd â chynllun bras ar gyfer ei weithredu, fersiwn i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ac esboniad hawdd ei ddeall o'r Bil drafft ar 30 Medi ac 16 Hydref.

Mae'r Bil drafft, y ddogfen ymgynghori, y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a dogfennau ategol eraill i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
[http://gov.wales/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?skip=1&lang=cy)

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 18 Rhagfyr 2015. Daeth 263 o ymatebion ysgrifenedig i law. Mae'r rhestr o'r rheini a ymatebodd yn Atodiad A. Gofynnodd rhai ohonynt am gael bod yn ddienw, a pharchwyd hynny. Mae copïau o'r ymatebion a ddaeth i law i'w gweld ar y we-dudalen ymgynghori.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno safbwyntiau'r ymatebwyr i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r Bil drafft.

## 2. Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl roi eu barn ar chwe maes yn ymwneud â Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Holwyd pum cwestiwn penodol a chwe chwestiwn penagored. Roedd y cwestiwn olaf yn wahoddiad agored i godi unrhyw faterion cysylltiedig.

Lluniwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ffurflen ymateb hefyd. Deg cwestiwn penodol oedd i hwn a saith cwestiwn penagored. Roedd cwestiwn olaf hwn hefyd yn un penagored i godi unrhyw faterion cysylltiedig.

Datblygwyd ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd, a oedd yn gofyn deg cwestiwn ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau i'w cynnal gyda phlant a phobl ifanc.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 263 o ymatebion. Mae hyn yn cynnwys ymatebion i ddwy ymgyrch, un yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg (31 ymateb) a phryderon a godwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) a Sense Cymru mewn perthynas â dysgwyr byddar a dysgwyr byddar a dall (73 ymateb). Defnyddiwyd y fersiwn hawdd ei deall o'r holiadur yn achos chwech o'r ymatebion. Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc.

Mae'r tablau canlynol yn dangos nifer yr ymatebwyr yn ôl categori a lleoliad.

| | |
|---|---|
| Ysgolion | 21 |
| Ysgolion arbennig | 8 |
| Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig | 11 |
| Y sector addysg bellach | 7 |
| Sefydliadau cyn ysgol | 0 |
| Gweithwyr addysg proffesiynol | 18 |
| Undebau'r athrawon | 6 |
| Awdurdodau lleol | 12 |
| Sefydliadau dysgu yn y gweithle | 0 |
| Byrddau iechyd lleol | 6 |
| Gweithwyr iechyd proffesiynol | 2 |
| Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus | 8 |
| Sefydliadau'r trydydd sector | 23 |
| Unigolion | 89 |
| Arall[1] | 37 |
| Heb ei nodi | 15 |

| | |
|---|---|
| Cymru | 167 |
| Y tu allan i Gymru | 10 |
| Heb ei nodi | 86 |

[1] Yn cynnwys ymatebion lle dewiswyd mwy nag un categori

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi defnyddio ffurflen ymateb Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd 25 ar fformat arall, gan gynnwys papur pennawd corfforaethol, gohebiaeth breifat a thestun rhydd.

Mae'r ffigurau a nodir ym Mhennod 4 ond yn ymwneud â'r ymatebion hynny a gyflwynwyd gan ddefnyddio ffurflen ymateb Llywodraeth Cymru. Ym mhob cwestiwn penodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi tic yn y blwch 'Cytuno', 'Anghytuno' neu 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno'. Fodd bynnag, ni wnaeth pawb a ddefnyddiodd yr holiadur roi tic mewn ymateb i bob cwestiwn penodol; lle na nodwyd ymateb, maent wedi'u cynnwys o dan 'heb roi tic'.

Mae hwn yn faes polisi cymhleth ac mae’r ymatebion a ddaeth i law yn adlewyrchu’r cymhlethdod hwn. Yn aml, er gwaethaf ymatebion negyddol i gwestiynau penodol, roedd y sylwadau yn dynodi cefnogaeth eang i’r prif egwyddorion dan sylw, ond eu bod yn nodi pryderon penodol neu faterion i’w hystyried ymhellach.

Ym mhob cwestiwn, mae’r ymatebion i’r ffurflen hawdd ei deall yn sylweddol fwy positif na’r ymatebion i’r ymgynghoriad manwl, ac yn dynodi cefnogaeth gref.

Mae'r sylwadau a nodwyd yn y crynodeb hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r wybodaeth ansoddol a ddarperir ym mlychau 'sylwadau ategol'  ffurflen ymateb Llywodraeth Cymru ac yn yr ymatebion a ddaeth i law ar fformatiau eraill.

Mae'r ymatebion i'r ddwy ymgyrch wedi'u crynhoi ar wahân ym Mhennod 5.

Cynhaliwyd digwyddiadau i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar ran Llywodraeth Cymru gan Cognition Associates. Mae adroddiad llawn ar y digwyddiadau hynny wedi'i gyhoeddi ar wahân ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://gov.wales/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?skip=1&lang=cy.

Cynhaliwyd hefyd ddau ddigwyddiad ymgynghori ffurfiol ag asiantaethau i gael barn rhanddeiliaid yn y Gogledd a'r De.

Mae canlyniadau'r digwyddiadau ymgysylltu hyn wedi'u cynnwys yn y crynodeb o ddigwyddiadau rhanddeiliaid a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

## 3. Prif negeseuon

Croesawyd egwyddorion y Bil drafft yn gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr. Er bod rhai pryderon wedi'u mynegi ynghylch y cynnig deddfwriaethol a amlinellwyd yn y Bil drafft, roedd mwyafrif helaeth y pryderon yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith statudol newydd yn hytrach nag â'r fframwaith ei hun. Gofynnodd rhai am fwy o fanylion ac eglurder, naill ai yn y Bil neu drwy'r Cod, ar nifer o'r meysydd diwygio. Roeddent hefyd am gael sicrwydd y byddai'r gweithlu a'r cyllid angenrheidiol yn eu lle er mwyn gweithredu'r system newydd ac y byddai anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael eu bodloni.

### Defnyddio'r termau 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' a 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol'

Roedd amrywiaeth eang o'r ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i gyflwyno'r termau 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' a 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol'. Roeddent yn ystyried bod y termau newydd yn fwy cynhwysol a phositif nag 'Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)' ac 'Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD)' yr arferir eu defnyddio. Y prif bryder a godwyd oedd y potensial i'r diffiniadau fod yn agored i ddehongliad unigolion a'r risg y byddent yn cael eu cymhwyso'n anghyson mewn gwahanol rannau o Gymru oni bai bod y Bil a'r Cod yn diffinio'r termau yn gwbl glir.

### Yr ystod oedran 0 - 25

Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'n gyffredinol yr egwyddor o gael un fframwaith deddfwriaethol a fyddai’n cwmpasu’r ystod oedran 0 - 25. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth symud o un cyfnod a lleoliad addysg i'r llall. Gofynnwyd am fwy o eglurder a manylion am rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, lleoliadau addysg ac asiantaethau eraill, yn benodol am y blynyddoedd cynnar a'r grŵp oedran 16 - 25 oed. Codwyd pryderon gan nifer o'r ymatebwyr na fyddai'r system newydd yn ymestyn y tu hwnt i Addysg Bellach ac y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys prentisiaethau, dysgu yn y gweithle ac Addysg Uwch o fewn cwmpas y Bil.

### Symud i un cynllun statudol

Er bod yna groeso i'r cynnig i gyflwyno proses gynllunio unedig, roedd yna bryderon y byddai cael gwared â'r ymateb graddedig o fewn y system bresennol yn arwain at roi straen ar adnoddau, yn sgil ehangu'r garfan o ddysgwyr sydd â hawl i gynllun statudol, gan roi hawl i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU), pa mor ddifrifol neu gymhleth bynnag yw eu hangen. Galwyd am fframwaith cyfreithiol cadarn i ategu'r broses o lunio CDU â meini prawf, diffiniadau a chyfrifoldebau clir o ran paratoi, cynnal ac adolygu cynllun o'r fath. Roedd hyn yn cynnwys datblygu templed safonol ar gyfer CDU i hwyluso cysondeb ledled Cymru.

### Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Roedd amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid yn croesawu'r pwyslais yn y Bil ar annog plant a phobl ifanc i gael rhoi eu barn ym mhob rhan o'r broses gyfan. Gwnaethpwyd y sylw y byddai cyflwyno CDUau a'r ffocws ar yr unigolyn wrth greu cynlluniau yn helpu i sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn rhan o bob penderfyniad, o ddechrau'r broses i'r diwedd. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo nad oedd y ddyletswydd i ffafrio addysg y brif ffrwd yn

adlewyrchu'r posibilrwydd y gallai plentyn neu berson ifanc fod am fynd i ysgol na chynhelir neu ysgol arbennig sy'n gweddu'n well i'w anghenion.

## Datrys anghytundebau

Roedd amrywiaeth eang o'r rhanddeiliaid yn croesawu'r fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer datrys anghytundeb. Roeddent yn teimlo bod y pwyslais ar ddatrys problem yn gynnar ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni drwy gydol y broses benderfynu yn helpu i osgoi trosglwyddo'r mater i'r Tribiwnlys yn ddiangen. Roedd yna gefnogaeth hefyd i gynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, er bod rhai am i hyn barhau'n wasanaeth annibynnol a gaiff ei gynnal ar wahân i awdurdodau lleol. Codwyd pryderon ynghylch y broses apelio, yn benodol y diffyg pwerau yn y Bil i'r Tribiwnlys gael rhoi cyfarwyddyd i gyrff iechyd gynnig darpariaeth. Roedd nifer hefyd yn anghytuno â’r ffaith na fyddai gan rieni hawl i apelio i'r Tribiwnlys ar ran person ifanc unwaith byddai’n 16 oed.

## Gweithio amlasiantaethol

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y Bil yn darparu'r sail ar gyfer mwy o gydweithio a chynllunio ar y cyd rhwng asiantaethau. Yn benodol, nodwyd bod datblygu CDUau, y cam tuag at gynlluniau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a chreu rôl Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig i gyd yn ffactorau a fyddai'n helpu i greu dull mwy unedig, rhyngasiantaethol o weithio ledled Cymru. Gofynnodd rhai am fwy o gyfarwyddyd yn y Cod er mwyn sicrhau bod y cydweithio rhwng asiantaethau yn effeithiol ac er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau rôl newydd y Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig. Gofynnodd y rhanddeiliaid hefyd am esboniad pellach o'r gofynion, y cyfyngiadau a'r fformat ar gyfer rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau i sicrhau systemau cadarn a diogel.

## Adnodd a chapasiti

Cododd mwyafrif yr ymatebwyr gwestiwn cael yr adnoddau a'r capasiti angenrheidiol i sicrhau bod elfennau amrywiol o'r system newydd yn cael eu gweithredu'n gywir. Roeddent yn pryderu y gallai'r system newydd gynyddu'n sylweddol lwyth gwaith staff lleoliadau addysg, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, yn enwedig mewn perthynas â'r grŵp oedran 16-25. Gwnaed y sylw nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a luniwyd ochr yn ochr â'r Bil drafft yn llawn gyfleu effaith y cynigion deddfwriaethol o ran llwyth gwaith a chyllid, a chwestiynwyd yr honiad y byddai'r diwygiadau yn niwtral o ran cost. Roedd yna gefnogaeth gref i'r syniad o ddarparu pecyn cyllid ychwanegol, hyfforddiant i'r gweithlu a chymorth parhaus wrth gyflwyno'r system newydd, i sicrhau bod y partneriaid perthnasol yn cael yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol.

## Y Gymraeg

Gofynnodd sawl corff, gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, am ofynion statudol o fewn y Bil i roi hawliau i blant, pobl ifanc neu rieni gael cyfrannu at bob cam o'r broses ADY a chael cymorth drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Cynigiwyd hefyd y dylai'r Cod amlinellu gofynion i sicrhau bod pob gwasanaeth a gohebiaeth ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni yn eu dewis iaith.

## Materion eraill

Roedd yna farn gref ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol ac ymhlith sefydliadau'r trydydd sector y byddai rôl gwasanaethau arbenigol neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft

Seicolegwyr Addysg, yn elwa ar gael eu cryfhau yn y Bil a'r Cod. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag asesu anghenion cymhleth neu brin megis nam ar y synhwyrau.

Er bod yr ymatebwyr yn croesawu creu rôl ar gyfer Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a rôl Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig, roedd yna bryderon y gallai'r llwyth gwaith fod yn drwm, gan ei gwneud yn amhosibl rheoli'r rolau hynny. Gofynnwyd am fwy o ganllawiau ar y cyfrifoldebau, y swyddogaethau, a'r gofynion o ran cymwysterau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r rolau.

Gofynnwyd am fwy o eglurder hefyd ar y trefniadau cymorth a gâi eu cynnig i sefydliadau, grwpiau proffesiynol a'r cyhoedd wrth symud i'r system newydd a sut y byddai'r system newydd yn cael ei gweithredu'n raddol ochr yn ochr â'r system bresennol dros dro.

# 4. Ymatebion i'r cwestiynau

## Cwestiwn 1: Cyflwyno'r term ADY ac ystod oedran 0-25

### A ydych yn cytuno bod y diffiniadau o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a nodir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunwn ar anghenion addysgol ac a ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw?

| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Cytuno | 34% |
| Anghytuno | 41% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 19% |
| Heb ateb | 6% |

Er bod 41% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cwestiwn penodol, roedd yna gefnogaeth eang i'r cynigion, ond bod rhai meysydd pryder penodol wedi'u codi. O ddadansoddi'r ymatebion llawn, daeth y pwyntiau canlynol i'r amlwg:

**Cyffredinol**

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr fod defnyddio ADY a DDdY yn hytrach na'r derminoleg bresennol yn gam positif ymlaen a bod y diffiniadau o ADY a DDdY a amlinellir yn y Bil drafft yn adlewyrchu'r ffocws a ddymunir ar anghenion addysgol a chynwysoldeb.

Roedd y sylwadau ategol hefyd yn dangos bod y mwyafrif yn cytuno, mewn egwyddor, bod y Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran dan sylw. Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd fod angen mwy o eglurder yn y diffiniadau a mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai anghenion ystod oedran 0-25, yn benodol 0-3 ac 16-25, yn cael eu diwallu.

**Y diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, yn croesawu'r term ADY gan ei fod yn symud oddi wrth y cysyniadau negyddol, difrïol a oedd yn gysylltiedig ag AAA. Ystyrid hefyd ei fod yn derm mwy positif a chynhwysol. Nododd eraill, fodd bynnag, mai dim ond mater o amser fyddai hi cyn i'r term newydd ddatblygu'r un stigma ag AAA.

Roedd sawl un o sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys Guide Dogs Cymru/Blind Children UK Cymru, yn gefnogol i'r term ADY gan fod y gair 'dysgu' efallai yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn dysgu y tu hwnt i ffiniau 'addysg' yn ei ystyr mwy ffurfiol a statudol. Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Annibynnol ac Ysgolion Arbennig Na Chynhelir (NASS), yn teimlo bod y diffiniad yn adlewyrchu'n briodol brif ffocws y Bil ar anghenion addysgol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai'r diffiniad o ADY yn cynnig mwy o gysondeb ac eglurder o ran terminoleg a'i fod yn gryno ac yn briodol. Fodd bynnag, nododd nifer bod angen i'r diffiniad fod yn gwbl glir, o ystyried bwriad y Bil i gefnogi amrywiaeth eang o

anghenion, er mwyn gofalu nad yw'n agored i gael ei ddehongli'n wahanol gan wahanol bobl. Yn benodol, gofynnwyd am eglurder ar y materion canlynol:

- penderfynu pwy sy'n gymwys i gael CDU a phwy sy'n gyfrifol amdano o dan y fframwaith newydd;
- dehongli'r hyn a olygir wrth 'anhawster sylweddol fwy';
- y diffiniad o 'anabledd' a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio gan bob asiantaeth, gan gynnwys y rheini o fewn y sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- a fydd plant a phobl ifanc nad oes ganddynt anhawster dysgu, ond sydd angen cymorth ychwanegol yn sgil anhawster corfforol, synhwyraidd, emosiynol neu o ran ymddygiad yn cael eu hystyried yn llawn o dan y diffiniad.

Nododd nifer, gan gynnwys Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), fod y Bil yn canolbwyntio'n bennaf ar blant oed ysgol a gofynnwyd am i waith pellach gael ei wneud er mwyn ystyried sut mae'r diffiniad yn bodloni anghenion dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar ac mewn addysg bellach.

**Y diffiniad o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol**

Croesawyd cyflwyno'r term DDdY yn gyffredinol. Fel yn achos y diffiniad o ADY, roedd detholiad o sefydliadau ac unigolion yn cytuno bod y term yn adlewyrchu'r ffocws a ddymunir ar anghenion addysgol. Awgrymodd eraill bod y term yn rhoi ffocws positif ar ddysgu.

Nid oedd Comisiynydd Plant Cymru yn cytuno â'r diffiniad o DDdY. Nododd fod cynnwys y term '(g)wahanol i' yn gwneud y ffin rhwng y cyfrifoldebau presennol i wahaniaethu rhwng elfennau addysgu yn y dosbarth ac unrhyw ddarpariaeth ychwanegol i gefnogi dysgu yn aneglur. Ychwanegodd y Comisiynydd nad yw addysgu gwahaniaethol yn golygu o reidrwydd bod gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnodd nifer am eglurder ar y diffiniad o DDdY. Dyma rai pwyntiau penodol a wnaed:

- mae angen datblygu union ddiffiniad o DDdY er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru;
- roedd rhai o'r farn bod goblygiadau i'r ffocws ar addysg yn hytrach nag ar ddysgu yn y diffiniad o DDdY i blant o dan oedran ysgol gorfodol o ran cael cymorth datblygu a chymorth ymddygiad;
- cwestiynwyd a fyddai darpariaeth arbenigol fel therapi iaith a lleferydd ar gael i blant a phobl ifanc;
- yr angen am eglurder ynghylch y ddarpariaeth a fyddai ar gael i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau na chynhelir ac ysgolion arbennig.

**Yr ystod oedran 0-25**

Roedd nifer o sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol a gweithwyr addysg proffesiynol yn croesawu agor y system i'r ystod gyfan rhwng 0 a 25 oed. Awgrymodd Anabledd Dysgu Cymru, Epilepsy Action Cymru, British Academy of Childhood Disability (BACD), yr Adran Iechyd Plant yn y Gymuned ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Sir y Fflint, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf y byddai cynnwys plant a phobl ifanc o'r ystod oedran cyfan hwn yn hwyluso'r trefniadau pontio wrth iddynt fynd o un cyfnod a lleoliad addysg i un arall.

Fodd bynnag, cwestiynodd nifer o awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac un a ymatebodd drwy'r holiadur hawdd ei ddeall pam roedd y Bil ond yn berthnasol i bobl ifanc sy'n astudio mewn addysg bellach ac, felly, pam na fyddai cymorth ar gael i'r rheini sy'n dilyn prentisiaethau, neu sy'n dysgu yn y gweithle neu mewn addysg uwch.

Cwestiynodd nifer sut byddai'r ystod oedran 0-25 yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd gan fod pobl ifanc 19-25 oed yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion yn y sectorau hyn. Yn benodol:

- cwestiynwyd sut byddai darpariaeth iechyd i bobl ifanc 19-25 oed yn cael ei chydlynu;
- codwyd pryderon ynghylch y capasiti i fodloni'r galw ychwanegol i bobl ifanc 19-25 oed mewn meysydd fel therapi iaith a lleferydd.

O ran yr ystod oedran 0-3, gofynnodd nifer o awdurdodau lleol am eglurder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal CDUau a darparu gwasanaethau mewn lleoliadau anaddysgol, a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hynny. Tynnodd nifer fach sylw at rôl sylfaenol gwasanaethau iechyd ar gyfer plant 0-3 oed gan gwestiynu ai nhw ddylai fod yn gyfrifol am y broses asesu a pharatoi CDU.

O ran yr ystod oedran 16-25, gofynnodd nifer am eglurder ar y disgwyliadau a fyddai ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i gynnig darpariaeth a phwy fyddai'n gymwys i gael darpariaeth o fewn y grŵp oed hwnnw.

Cynigiodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai'r Bil ehangu'r diffiniad o 'blentyn' i gynnwys unrhyw un o dan 18 oed. Nododd y Comisiynydd y byddai hyn yn sicrhau hawliau cyfartal i bob plentyn, fel y'i diffinnir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os na ellir gwneud hyn, galwodd y Comisiynydd am i'r Bil gyflwyno darpariaeth sy'n cydbwyso'n ddigonol hawl person ifanc i gael ei glywed a'i hawl i'w les pennaf gael ei ystyried uwchlaw popeth.

**Capasiti ac adnoddau**

Mynegwyd cryn bryder gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a gweithwyr addysg proffesiynol na fyddai'r capasiti a'r adnoddau yn eu lle i weithredu'r diwygiadau, yn benodol ar gyfer yr ystod oedran 0-25. Er mwyn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu bodloni, galwodd nifer am i adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cyllid a hyfforddiant, fod ar gael, yn benodol i awdurdodau lleol er mwyn rheoli'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed.

**Rolau arbenigol**

Cododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch y gwasanaethau arbenigol a fyddai ar gael, gan gwestiynu a fyddai ysgolion/Cydlynwyr ADY, wrth asesu anghenion plant a phobl ifanc, yn gwybod pryd i gynnwys arbenigwyr, yn enwedig yn achos pobl ifanc ag anghenion cymhleth a/neu brin megis nam ar y synhwyrau. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y gwasanaethau arbenigol a'r athrawon arbenigol a fyddai ar gael i'r blynyddoedd cynnar a dysgwyr ôl-16, yn enwedig mewn sefydliadau addysg bellach.

Roedd yna bryderon ynghylch cylch a llwyth gwaith ehangach rôl y Cydlynydd ADY. Tynnodd Anabledd Dysgu Cymru sylw at y ffaith y gallai llwyth achosion staff mewn lleoliad addysg bellach olygu ei bod yn amhosibl rheoli'r rôl honno. Roedd Cymdeithas Syndrom Down hefyd yn awgrymu y gallai'r cynnydd mewn llwyth gwaith arwain at dynnu'r ffocws a'r arbenigedd oddi wrth y disgyblion a'r myfyrwyr hynny oedd â'r anghenion mwyaf gan lastwreiddio adnoddau prin o bosibl.

Tynnodd nifer o weithwyr addysg proffesiynol ac unigolion sylw at ansicrwydd rôl Seicolegwyr Addysg, gan nad oedd y Bil yn nodi eu bod yn orfodol. Cynigiwyd y dylai rôl Seicolegwyr Addysg gael ei chydnabod yn y Bil a'r Cod er mwyn sicrhau bod plant a phobl

ifanc yng Nghymru yn cael yr un hawliau i gael gweld seicolegydd o'r fath â phlant a phobl ifanc yn Lloegr. Awgrymwyd hefyd y dylai'r cod nodi y dylai ysgolion ymgynghori â Seicolegydd Addysg cyn cyfeirio unrhyw achos at awdurdod lleol, gan gydnabod rôl ehangach y Seicolegydd Addysg wrth gefnogi staff ysgolion ar bob lefel, gan gynnwys sefydliadau addysg bellach.

### Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall

### Yn y ddeddf newydd rydyn ni'n dweud beth rydyn ni'n ei feddwl wrth anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n glir bod arnon ni eisiau canolbwyntio ar anghenion dysgu?

| | |
|---|---|
| Ydw | 100% |
| Nac ydw | - |
| Ddim yn siwr | - |

### Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da canolbwyntio ar anghenion dysgu yn lle anghenion eraill fel iechyd?

| | |
|---|---|
| Ydw | 83% |
| Nac ydw | - |
| Ddim yn siwr | 17% |

### Ydych chi'n meddwl y bydd y ddeddf newydd yn dda ar gyfer pobl 0-25 oed sydd ag ADY?

| | |
|---|---|
| Ydw | 67% |
| Nac ydw | - |
| Ddim yn siwr | 33% |

Mynegodd rhai bryder nad oedd y Bil a'r Cod drafft yn rhoi digon o sylw i rôl y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, gwnaed y sylw hefyd bod y ffaith bod modd trosglwyddo CDUau yn rhywbeth i'w groesawu ac roedd yna gefnogaeth i ddefnyddio'r term ADY yn lle AAA ac i ehangu'r ystod oedran i 0-25.

### <u>Cwestiwn 2</u>: Proses gynllunio unedig sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

### A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)?

| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Cytuno | 23% |
| Anghytuno | 53% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 17% |
| Heb ateb | 7% |

Er bod 53% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cwestiwn penodol, roedd yna gefnogaeth eang i'r cynigion yn gyffredinol. Unwaith eto, soniodd yr ymatebwyr am feysydd pryder penodol, ond yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebion yn cyfleu'r gwrthwynebiad i'r elfen hon o'r Bil drafft ag y mae'r ymateb i'r cwestiwn penodol yn ei ddynodi.

**Cyffredinol**

Roedd yr ymatebwyr yn frwd o blaid cyflwyno proses gynllunio unedig a'r pwyslais ar gynnwys plant a phobl ifanc yn fwy. Serch hynny, gofynnwyd am fwy o eglurder a manylion yn y Bil a'r Cod i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn gwbl gadarn.

**Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

Roedd ymatebwyr o bob grŵp rhanddeiliaid yn croesawu'r pwyslais ar gynnwys plant a phobl ifanc yn fwy. Roedd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg yn siarad dros lawer pan ddywedodd bod hyn yn beth da. Dywedodd ei bod yn hollbwysig bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn y ffordd sydd fwyaf priodol iddyn nhw a bod pob ymarferydd yn meithrin diwylliant o wrando yn eu harferion bob dydd.

**Proses gynllunio unedig**

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i gyflwyno proses gynllunio unedig, gan gynnwys defnyddio CDUau statudol. Roedd y sylwadau yn amrywio, rhai'n dweud y byddai'n ychwanegu at gadernid y fframwaith cyfreithiol, eraill yn dweud y byddai'n symleiddio ac yn gwella'r broses bresennol.

Mynegodd ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol bryderon y byddai proses gynllunio unedig yn cael gwared ar yr ymateb graddedig sy'n rhan annatod o'r system AAA bresennol. Nododd Cyngor Bro Morgannwg y gallai cael gwared ar ymateb graddedig arwain at fynnu darpariaeth pan fo'r anghenion lawer yn is nag ar hyn o bryd, ac y byddai hynny yn ei dro yn arwain at orymestyn adnoddau corfforol ac ariannol. Galwodd rhai am fwy o eglurder hefyd ynghylch meini prawf llunio CDU a dod ag ef i ben er mwyn osgoi anghydfod gyda rhieni.

**Fframwaith cyfreithiol**

Roedd yna safbwyntiau gwahanol iawn i'w gilydd ymhlith yr ymatebwyr o ran a oedd y Bil yn creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu CDUau.

Roedd rhai yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu fframwaith cyfreithiol clir a chadarn i gefnogi'r broses o lunio a chynnal CDUau. Fodd bynnag, codwyd pryderon nad oedd digon o wybodaeth yn y Bil a'r dogfennau ategol i sicrhau hynny.

Galwodd nifer am ddiffiniadau a meini prawf clir ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu CDUau i sicrhau cysondeb ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- rhwymedigaethau ar asiantaethau partner fel gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gydweithredu ar CDUau;
- canllawiau ar asesu anghenion yn ffurfiol; gwneud penderfyniadau; a phwy fydd yn cyfrannu at y broses o baratoi, cynnal a chadw ac adolygu CDU, hy gweithwyr proffesiynol arbenigol a gwasanaethau cymorth;
- eglurder ynghylch pryd dylid cyfeirio CDUau o ysgolion i awdurdodau lleol yn achos dysgwyr ag anghenion cymhleth;

- canllawiau ar amserlenni adolygu;
- eglurder ynghylch pwy fydd yn monitro ansawdd CDUau;
- datblygu diffiniad cadarn o ADY a DDdY.

Galwodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr am i dempled o CDU gael ei ddatblygu i sicrhau cysondeb ledled Cymru. Roedd NDCS Cymru yn adlewyrchu safbwyntiau llawer pan ddywedodd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu templed cenedlaethol er mwyn sicrhau CDU cyson, tryloyw a chludadwy. Dywedodd y byddai templed hefyd yn helpu i gynnal integriti cyfreithiol y ddogfen.

**Capasiti**

Roedd nifer o lywodraeth leol a lleoliadau addysg, gan gynnwys Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, yn pryderu y byddai'r system newydd yn cynyddu'r llwyth gwaith i staff ysgolion ac awdurdodau lleol ac i ddarparwyr eraill. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai angen arian a hyfforddiant cynhwysfawr ac amserol ar gyfer y gweithlu perthnasol cyfan er mwyn gweithredu'r broses gynllunio newydd yn llwyddiannus.

Tynnwyd sylw at rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY yn benodol gan nifer o ymatebwyr fel rhywbeth a allai fod yn feichus, gan arwain at broblemau o ran ansawdd a chysondeb. Dywedodd Guide Dogs Cymru/Blind Children UK fod rolau a chyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY, a nodir ym mhwynt 45 y Cod Ymarfer, yn eang ac yn helaeth. Aethant ymlaen i ddweud eu bod yn pryderu, er ei bod yn beth cywir a da ein bod yn uchelgeisiol ar gyfer y rôl ac yn pennu disgwyliadau uchel, y bydd rôl y Cydlynydd ADY yn rhy drwm ac yn feichus. Roeddent yn teimlo nad y Cydlynydd ADY ei hun ddylai ysgwyddo'r pwysau o wneud i'r fframwaith ADY weithio; ac na ddylid caniatáu i awdurdodau lleol gael dadlwytho eu cyfrifoldebau ar feithrinfeydd, ysgolion a sefydliadau addysg bellach drwy'r rôl hon. Cynigiodd grŵp bach o ymatebwyr y dylai'r rôl fod yn un lawnamser ac y dylid ystyried penodi cymorth gweinyddol i'w helpu â gofynion gweinyddol y swydd.

**Y Gymraeg**

Nododd nifer o ymatebwyr o ysgolion, undebau athrawon a sefydliadau'r trydydd sector y dylai'r Bil, er mwyn creu fframwaith cyfreithiol cadarn, gyfeirio at egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn benodol, dylai'r Bil nodi na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mynegodd Mentrau Iaith Cymru farn a adleisiwyd gan nifer, sef y dylai'r broses gynllunio, ynghyd â phob cam arall yn y broses, fod ar gael i'r un graddau drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis iaith y plentyn/person ifanc a/neu ei rieni. Dylai'r egwyddor honno fod yn glir yn y Bil fel gofyniad statudol.

## Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall

## Ydych chi'n meddwl bod ein cynlluniau ynghylch sut i:

- **fod yn barod ar gyfer**
- **ysgrifennu**
- **gwneud**
- **gwirio**

**y cynllun datblygu unigol yn dda?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 66% |
| Nac ydw | 17% |
| Ddim yn siwr | 17% |

## A fydd cael un cynllun datblygu unigol yn well na chael gwahanol gynlluniau ar gyfer gwahanol fathau o ADY?

| | |
|---|---|
| Bydd | 100% |
| Na fydd | - |
| Ddim yn siwr | - |

Roedd nifer o'r farn y byddai'r system newydd yn haws ei deall. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen proses glir iawn a galwodd rhai am ffurf benodol i'r CDU.

## Cwestiwn 3: Dyheadau uchel a gwell deilliannau

## A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo?

| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Cytuno | 30% |
| Anghytuno | 47% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16% |
| Heb ateb | 7% |

Yma eto, gwelwn anghysondeb rhwng yr ymatebion i’r cwestiwn penodol, gyda 47% yn anghytuno, a’r sylwadau. Yn gyffredinol, mae’r sylwadau yn dynodi cefnogaeth gref i’r cynigion yn y Bil drafft i geisio diogelu a hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc. Mynegwyd nifer o bryderon penodol, llawer ohonynt am adeiladu ar yr hyn oedd wedi’i nodi yn y Bil drafft.

**Cyffredinol**

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r dyheadau uchel y tu ôl i'r Bil a'r uchelgais i wella deilliannau i blant a phobl ifanc ag ADY. Nodwyd bod y Bil drafft yn hyrwyddo ac yn diogelu buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY, gan roi pwyslais clir ar eu cynnwys drwy gydol y broses drwy gyflwyno arferion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

Fodd bynnag, roedd yna bryderon nad oedd y Bil drafft yn cynnig fframwaith digon clir i ennyn hyder y byddai anghenion a buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu bodloni, eu diogelu neu eu hyrwyddo. Roedd rhai yn teimlo nad oedd digon o eglurder a manylion ynghylch sut byddai ADY plant a phobl ifanc yn cael eu nodi, eu hasesu a'u bodloni, i awgrymu y byddai'r system arfaethedig yn sicrhau buddiannau gwell i blant a phobl ifanc o gymharu â'r system bresennol. Roedd yna bryderon hefyd nad oedd y Bil drafft yn gwarantu darpariaeth Gymraeg i'r rheini a oedd am gyfathrebu drwy'r Gymraeg.

**Cynlluniau Datblygu Unigol**

Ymateb nifer o weithwyr addysg proffesiynol oedd bod cyflwyno CDUau statudol yn dynodi ffocws clir ar hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc. Gwnaeth Estyn y sylw y byddai'n sicrhau lefelau diogelwch uwch nag ar hyn o bryd, ac roedd yn ystyried y pwyslais arfaethedig ar gynnwys y dysgwr yn y broses o ddatblygu ac adolygu ei CDU fel cam cadarnhaol.

Cododd TAAAC y pryder y gallai hawliau a diogelwch plant a dysgwyr ag anghenion difrifol a chymhleth gael eu glastwreiddio drwy geisio sicrhau bod y system yn hyblyg ac yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion llai difrifol.

Awgrymodd nifer newidiadau i broses y CDU er mwyn helpu i hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- dylai trosolwg a ffocws hirdymor fod yn rhan o'r CDU er mwyn helpu i gynllunio cynnydd pob plentyn unigol;
- dylid cynnwys gofynion datblygu ac amgylcheddol ehangach yn y CDU;
- dylai'r deilliannau a bennir mewn CDUau fod yn realistig a'r adolygiadau yn drwyadl er mwyn i ddysgwyr fod yn barod ar gyfer pob cam;
- dylai CDUau ganolbwyntio ar ddeilliannau gan dracio a monitro ymyriadau er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth i lefel uchel;
- mwy o eglurder ar y broses gyfan o baratoi, cynnal a chadw ac adolygu CDUau;
- efallai y byddai plant a phobl ifanc sydd â mân anghenion neu anghenion cymhedrol yn elwa ar gynllun mwy penodol neu sydd wedi'i deilwra yn hytrach na CDU llawn;
- mwy o fanylion ynghylch gallu person ifanc i wrthod CDU a'r angen i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o bob elfen o'r diogelwch y mae CDU yn ei gynnig;
- datblygu templed CDU i sicrhau bod modd mynd ag ef o un lleoliad i'r llall o fewn ardal awdurdod lleol ac i ardal awdurdod lleol arall.

**Arferion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr**

Gwnaeth mwyafrif yr ymatebwyr y sylw y byddai'r ffocws ar yr unigolyn yn gofalu bod y dysgwr yn cael ei gynnwys drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ac y byddai'r model hwn yn hyrwyddo ac yn diogelu buddiannau plant a phobl ifanc.

Nododd NDCS Cymru, Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector a Chyngor Sir y Fflint y byddai angen amrywiaeth o sgiliau ar ymarferwyr a digon o amser i sicrhau bod y model yn cael ei weithredu'n gywir a bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel yn ystod y broses, os oedd y model hwn i weithio. Nododd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Conwy hefyd na fyddai'r model o ganolbwyntio ar y dysgwr yn briodol i bob disgybl o bosibl, ac felly y byddai angen hyblygrwydd.

**Deddfwriaeth arall/confensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

Awgrymodd nifer y byddai'r bwriad i sicrhau gwell deilliannau a dyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn cael ei gryfhau drwy alinio'r Bil â deddfwriaeth ddiweddar megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cynigiwyd hefyd y dylai'r Bil roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

**Cydlynwyr ADY**

Croesawyd y bwriad i gyflwyno rôl statudol ar gyfer Cydlynydd ADY gan nifer, gan gynnwys Estyn a TAAAC, a chydnabuwyd y byddai'n helpu i hyrwyddo a diogelu buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY.

Nododd rhai fod y gofyniad i Gydlynwyr ADY ennill cymhwyster penodol yn gam positif a'u bod yn gobeithio y byddai hyn yn cwmpasu pob maes ADY, gan gynnwys datblygiad synhwyraidd. Codwyd y thema hon gan nifer, gan gynnwys Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg. Nododd y rhain y byddai'n rôl hollbwysig ac y byddai'n rhaid i'r unigolyn gael y cymwysterau priodol a'r hyfforddiant a'r addysg broffesiynol berthnasol.

Codwyd pryderon gan rai am gylch gwaith eang rôl y Cydlynydd ADY a'r diffyg eglurder ynghylch sut y byddai'r rôl yn gweithio yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Gofynnwyd am eglurder hefyd ynghylch y gallu i recriwtio unigolion oedd â chymwysterau addas o fewn yr amserlenni gweithredu, a sut y gallai baich gweinyddol posibl y rôl effeithio ar y gallu i roi cymorth i ddisgyblion.

**Seicolegwyr Addysg**

Gwnaed y sylw nad oedd y Bil drafft yn adlewyrchu'r rôl allweddol sydd gan seicolegwyr addysg yn y broses asesu bresennol ac wrth gydlynu'r trefniadau i fodloni anghenion dysgwyr, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion difrifol neu gymhleth. Nodwyd nad oedd y Bil drafft yn sicrhau lle i'r rôl hon ac, o ganlyniad, y gallai awdurdodau lleol ddewis peidio â rhoi cyllid i seicolegwyr addysg gyflawni'r gwaith hwn.

Awgrymodd nifer o weithwyr addysg proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg, y dylid ystyried comisiynu mwy o leoedd hyfforddi mewn prifysgolion i seicolegwyr addysg. Nodwyd hefyd bod rôl y seicolegydd addysg yn hollbwysig o ran rhoi cyngor, hyfforddiant a chymorth parhaus i ysgolion ac y bydd angen digon o adnoddau er mwyn cynnal y rôl, yn enwedig o gofio'r cohort mwy o ddysgwyr a fyddai â hawl i gynllun statudol.

**Datrys anghydfodau**

Gwnaethpwyd y sylw bod y Bil yn cynnig proses glir ar gyfer cyfeirio anghydfod o un lefel i'r nesaf, a chroesawyd y syniad o ehangu rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 ag ADY. Roedd derbyniad da hefyd i bwyslais y Bil ar eiriolaeth a'r cysyniad o gyfeillion achos, rhywbeth a oedd yn cael ei ystyried yn gam positif. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen i rôl a swyddogaethau cyfeillion achos gael ei ddiffinio'n glir er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio er lles pennaf y plentyn.

**Addysg y brif ffrwd**

Mynegodd nifer bryderon ynghylch y ffaith bod y ddyletswydd i ffafrio addysg yn ysgolion y brif ffrwd a gynhelir yn y Bil yn anghyson â'r egwyddor y dylid ystyried lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc uwchlaw popeth.

**Y diffiniad o ADY**

Roedd gan nifer o ymatebwyr o awdurdodau lleol ac ysgolion bryderon na fyddai diffiniad y Bil o ADY yn diogelu neu'n hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY oherwydd diffyg eglurder ynghylch yr hyn a olygir wrth ADY. Nododd rhai y byddai diffiniad cul o ADY a oedd yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad yn eithrio sawl math o angen. Ar y llaw arall, roedd

gan rai bryderon bod y term ADY yn cwmpasu sbectrwm anferth o anghenion a fyddai'n arwain at esgeuluso disgyblion ar ben pellaf y sbectrwm.

**Yr ystod oedran**

Cododd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys NDCS Cymru a TAAAC, bryderon ynghylch y posibilrwydd o dynnu rhieni allan o benderfyniadau ynghylch dysgwyr ôl-16. Galwyd am ganllawiau statudol priodol ac eithriadau cyfreithiol er mwyn sicrhau nad oedd hyn yn cael ei gamweithredu. Mynegodd nifer bryder nad dyma fyddai orau i'r person ifanc ac na fyddai'n helpu i sicrhau bod eu buddiannau yn cael eu diogelu neu eu hyrwyddo.

Gwnaeth nifer y sylw nad oedd y terfyn oedran o 25 a ffocws addysgol y Bil yn hyrwyddo hawliau cyflogaeth pobl ifanc ag ADY nac yn helpu'r broses bontio i fyd oedolion. Cyfeiriwyd at y delfrydau a hyrwyddwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Soniwyd hefyd am anghenion dysgwyr mewn addysg uwch neu ar gynlluniau hyfforddi ac na fyddai'r Bil yn darparu'n benodol ar gyfer y rhain.

**Adnoddau**

Croesawyd y ffaith bod yna gydnabyddiaeth i bwysigrwydd gwella sgiliau athrawon a chynllunio a datblygu'r gweithlu er mwyn gallu nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag ADY a'u cefnogi.

Codwyd nifer o bryderon ynghylch elfennau ymarferol, cyllid a'r capasiti i weithredu gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at orymestyn adnoddau yn hytrach na diogelu a hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc. Yn benodol, nodwyd y disgwyliad sydd ar staff addysgu i asesu ADY dysgwyr o dan y cynigion newydd a chapasiti staff allweddol i gydgysylltu ag asiantaethau partner yn ogystal â chyflawni eu dyletswyddau eraill.

Gwnaed nifer o sylwadau gan ymatebwyr a oedd mewn llywodraeth leol a'r sector addysg ynghylch yr angen am hyfforddiant mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach er mwyn sicrhau bod gan staff sgiliau digonol i fodloni anghenion dysgwyr ag ADY a gweithredu prosesau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a'r CDU yn drwyadl.

Dadleuodd yr ymatebwyr hefyd y byddai angen digon o gyllid er mwyn cyflawni'r nod o wella deilliannau plant a phobl ifanc ag ADY.

## Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall

## Bydd arnon ni angen gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn meddwl beth y mae'n rhaid i blant sydd ag ADY ei gael. Mae arnon ni angen i bobl feddwl am eu hanghenion yn yr holl gynlluniau ar gyfer addysg. A fydd y ddeddf newydd yn gwneud hyn?

| | |
|---|---|
| Bydd | 66% |
| Na fydd | 17% |
| Ddim yn siwr | 17% |

**Mae arnon ni eisiau i blant, pobl ifainc a’u teuluoedd fod yn rhan o’r penderfyniadau ynghylch sut i gefnogi eu hanghenion. A fydd y ddeddf newydd yn helpu plant a phobl ifainc gael dweud eu barn am y gefnogaeth maen nhw’n ei gael?**

| | |
|---|---|
| Bydd | 83% |
| Na fydd | 17% |
| Ddim yn siwr | - |

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r ffordd y mae'r Bil drafft yn cynnig cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn penderfyniadau o dan y system newydd, gan wneud dysgwyr yn rhan ganolog o'r broses. Codwyd cwestiwn, fodd bynnag, ynghylch a oedd angen gofynion cyfreithiol cryfach er mwyn gorfodi newid diwylliant.

## Cwestiwn 4: Rhagor o gydweithredu

### A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY?

| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Cytuno | 22% |
| Anghytuno | 49% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 22% |
| Heb ateb | 7% |

Roedd 49% o’r rheini a ddewisodd ymateb i’r cwestiwn penodol hwn yn anghytuno â’r cynnig y byddai'r Bil yn gwella gwaith amlasiantaethol yng nghyd-destun y system ADY arfaethedig. Roedd y sylwadau ategol yn llawer mwy positif yn gyffredinol, er eu bod yn cynnwys amrywiol bryderon ac yn gofyn am fwy o wybodaeth ac eglurder.

**Cyffredinol**

Cytunodd nifer fod y Bil drafft yn sail i fwy o gydweithredu rhwng asiantaethau. Fodd bynnag, gofynnodd rhai am fwy o fanylion am y trefniadau i sicrhau partneriaethau effeithiol, y gofynion ar gyfer rhannu gwybodaeth a rôl y Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig. Pwyswyd am roi dyletswydd ar asiantaethau ar wahân i'r rheini yn y sector addysg i asesu a darparu pan fo angen neu'n ofynnol ac am awdurdodaeth i'r Tribiwnlys gael eu dal i gyfrif.

**Fframwaith**

Roedd nifer o ymatebwyr o sefydliadau'r trydydd sector, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r proffesiwn addysg yn cytuno bod y Bil drafft yn creu sail ar gyfer mwy o gydweithredu a chynllunio. Yn benodol, tynnodd rhai sylw at y ffaith bod datblygu un cynllun, mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau asiantaethau eraill o ran datblygu CDUau, a'r cam tuag at ganolbwyntio ar y dysgwr, i gyd yn creu dull gweithredu unedig ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Estyn, am fwy o ganllawiau o fewn y Cod ar brotocolau, strategaethau comisiynu ac ati sydd eu hangen er mwyn sicrhau partneriaethau gwaith effeithiol. Ar yr un thema, tynnodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol sylw at y ffaith bod y Bil drafft yn gwahanu anghenion gofal iechyd a gofal cymdeithasol oddi wrth anghenion addysgol, a allai arwain at anghytundeb ynghylch y ddarpariaeth gwasanaethau gan fod y gwahaniaeth rhwng angen iechyd ac angen addysgol yn aneglur.

Nododd TAAAC fod y diffyg cydweithredu sydd wedi amharu ar effeithiolrwydd yr asesiad AAA ac AAD presennol a'r systemau cymorth yn debygol o barhau o fewn y system newydd ac y byddai hynny'n tanseilio'i heffeithiolrwydd yn gyffredinol. Cwestiynodd TAAAC a oedd y Bil drafft yn ddigon cadarn neu arloesol o ran sicrhau bod gwasanaethau yn cydweithredu'n effeithiol ac yn mynd ati i gefnogi anghenion dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, ychwanegodd fod yna sawl elfen o fewn y cynigion sy'n arloesol ac a allai sicrhau gwelliant gwirioneddol yn addysg dysgwyr ag ADY os gellir sicrhau cydweithredu effeithiol rhwng gwasanaethau.

**Dyletswyddau ar asiantaethau eraill**

Galwodd ymatebwyr o awdurdodau lleol, grwpiau Cydlynwyr AAA, a sefydliadau'r trydydd sector am ddyletswydd statudol yn y Bil ar asiantaethau eraill, yn benodol cyrff iechyd, i gynnal asesiadau a darparu gwybodaeth neu wasanaethau pan fo gofyn iddynt wneud hynny. Nododd nifer o grwpiau addysg proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Prif Seicolegwyr Addysg (Cymru), y dylai'r Tribiwnlys allu dal asiantaethau eraill yn atebol yn ystod anghydfodau ynghylch ADY neu DDdY dysgwyr.

**Swyddogion Meddygol/Clinigol Dynodedig a Chydlynwyr ADY**

O ran y rôl arfaethedig ar gyfer Swyddog Meddygol neu Glinigol Dynodedig, roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ei chroesawu fel cam cadarnhaol i helpu i gydlynu swyddogaethau ADY byrddau iechyd a'r sector addysg. Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch y rôl, gan gynnwys sut y byddai'n cydweithio ag asiantaethau eraill a'r sector addysg, ac a fyddai'n rôl glinigol neu weinyddol. Nid oedd Comisiwn Plant Cymru wedi'i ddarbwyllo y byddai'r rôl yn cynyddu lefel y cydweithredu â'r sector addysg heb i'r Bil gyflwyno dyletswyddau statudol ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Nododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Plant yng Nghymru, y byddai rôl y Cydlynydd ADY newydd o gydlynu'r cydweithio ag asiantaethau eraill mewn perthynas â CDUau yn cymryd llawer o amser, ac nad yw hyn yn gydnaws â'r amserlen addysgu.

**Adnoddau**

Roedd y gallu i sicrhau cydweithredu amlasiantaethol ag adnoddau cyfyngedig yn bryder i nifer, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Yn benodol, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- rhaid darparu adnoddau priodol er mwyn gallu canolbwyntio ar y dysgwr a sicrhau bod CDUau effeithiol yn cael eu llunio;
- gallai diffyg adnoddau arwain at anghytundebau rhwng rhieni, ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill oherwydd disgwyliadau uchel ac ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddarpariaeth;
- mae blaenoriaethau cyllidebol yn amrywio o un asiantaeth i'r llall - mae rhai'n gweithredu ar sail adnoddau ac eraill ar sail anghenion;
- dylid ystyried cronni adnoddau neu ddatblygu fframwaith amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod adnoddau lleol yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

**Rhannu gwybodaeth**

Roedd nifer yn croesawu'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau, ond gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch y gofynion a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Nodwyd y byddai angen sicrhau bod systemau cadarn a diogel ar waith, a phrotocolau effeithiol, gan gytuno ar fformatiau cyson ar gyfer rhannu data. Roedd yna alw hefyd am i systemau gwahanol asiantaethau gael eu halinio er mwyn cydweithio'n well. Fodd bynnag, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fod gwaith amlasiantaethol yn gallu bod yn anodd oherwydd y rhwystrau o fewn y systemau TG presennol, a bod cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer rhannu systemau gwybodaeth gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ond nad ydynt yn cynnwys addysg.

## Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall

## Mae arnon ni eisiau i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i gefnogi plant a phobl ifainc sydd ag ADY. Fydd y ddeddf newydd yn helpu pawb i weithio gyda'i gilydd?

| | |
|---|---|
| Bydd | 66% |
| Na fydd | 17% |
| Ddim yn siwr | 17% |

Mynegwyd peth pryder ynghylch rôl rhieni yn y broses pan fydd plentyn yn troi'n 16 oed a bod y prif gyfrifoldeb yn symud oddi wrth y rhiant i'r person ifanc ei hun. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch pwy sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw.

## <u>Cwestiwn 5</u>: Osgoi anghytundebau, datrys anghytundebau'n gynharach a hawliau clir a chyson i apelio

## A ydych yn cytuno y byddai'r Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio?

| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| Cytuno | 20% |
| Anghytuno | 46% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 24% |
| Heb ateb | 10% |

Roedd 46% yn anghytuno â'r datganiad bod y Bil drafft yn cynnig fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb. Fodd bynnag, unwaith eto, nid yw'r sylwadau ategol o reidrwydd yn adlewyrchu ymateb mor negyddol. Mynegwyd rhai pryderon, ond mae'n amlwg o'r sylwadau bod yna gryn gefnogaeth hefyd.

**Cyffredinol**

Roedd ymatebwyr o amrywiaeth eang o grwpiau yn croesawu'r pwyslais ar ddatrys anghytundebau yn gynnar; cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni yn fwy; a'r fframwaith arfaethedig. Fodd bynnag, gofynnwyd am sicrwydd y byddai gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn parhau'n annibynnol ar awdurdodau lleol. Roedd yna bryderon ynghylch y cynnydd posibl mewn anghytundebau yn sgil yr ystod oedran estynedig, diffyg pwerau'r Tribiwnlys i orfodi asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau, a chael gwared ar allu rhiant i apelio ar ran ei blentyn ar ôl 16 oed.

**Fframwaith**

Roedd nifer o ymatebwyr o sefydliadau'r trydydd sector, gweithwyr addysg proffesiynol, ac awdurdodau lleol yn cytuno bod y Bil drafft yn darparu fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundebau. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil drafft i gefnogi hyn a nododd ei bod yn bwysig bod trefniadau ar waith i sicrhau bod y dull cyflymaf, mwyaf priodol o ddatrys y sefyllfa yn cael ei nodi ar lefel leol.

Fodd bynnag, roedd gan rai bryderon y byddai ehangu'r ystod oedran a chyflwyno hawliau statudol i bob dysgwr ag ADY heb feini prawf clir a diffiniadau ar gyfer ADY a DDdY yn cynyddu nifer yr anghytundebau ac yn creu rhwystrau ychwanegol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni. Daeth sylwadau i law hefyd y byddai goblygiadau i'r cynnydd posibl mewn anghytundebau o ran adnoddau i sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Roedd un ymateb dienw yn awgrymu ei bod yn anodd iawn penderfynu a yw'r fframwaith yn briodol i helpu i osgoi a datrys anghytundebau hyd nes y byddwn wedi gweld yr hyn sy'n digwydd mewn rhai achosion 'prawf'.

**Datrys anghytundebau yn gynnar**

Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol, gweithwyr addysg proffesiynol, fforymau rhieni a sefydliadau'r trydydd sector yn croesawu'r pwyslais ar ddatrys anghytundebau yn gynnar fel datblygiad positif a fyddai'n golygu nad oes angen trosglwyddo achos ar unwaith ac yn ddiangen i'r Tribiwnlys.

Awgrymodd nifer y dylid cynnwys rhwymedigaeth ar bob parti i fynd ati i gyfryngu neu geisio datrys anghytundeb, a'u hatal rhag apelio i'r Tribiwnlys nes iddynt wneud hyn. Fodd bynnag, nododd nifer o sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys Plant yng Nghymru, y dylai'r broses o ddatrys anghytundeb allu cydredeg ag apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n apelio ar lefel awdurdod lleol am benderfyniadau gan gyrff llywodraethu ysgolion yn gorfod aros cyn manteisio ar wasanaethau'r Tribiwnlys. Cymharwyd hyn â'r ddarpariaeth yn y Bil drafft sy'n caniatáu i ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach apelio'n uniongyrchol i'r Tribiwnlys heb orfod ymgysylltu â'r awdurdod lleol yn gyntaf.

**Ymgysylltu**

Nododd nifer fod y Bil drafft yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni drwy gydol y broses gynllunio i helpu i leihau neu osgoi anghytundeb. Yn benodol, roedd yr ymateb gan benaethiaid, Cydlynwyr AAA, athrawon cynghori a swyddogion awdurdodau lleol yn Sir Gaerfyrddin yn dweud bod arferion a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn a ddilynwyd mewn perthynas â rhieni mewn dau gynllun peilot wedi bod yn effeithiol iawn o

ran rhoi llais i rieni a dysgwyr, meithrin ymddiriedaeth, creu ymdeimlad eu bod wedi'u cynnwys mewn penderfyniadau a'i gwneud yn bosibl datrys problemau yn gynnar.

Roedd yna bryderon gan nifer  o ymatebwyr mai'r bobl ifanc, yn achos y rheini rhwng 16 a 25 oed, sy'n gyfrifol am apelio i'r Tribiwnlys ac nad yw hawl rhieni i apelio ar eu rhan wedi'i chynnwys yn y Bil. Nododd Sinclairslaw fod gan rieni rôl bwysig yn aml ac y gallant roi cyngor cadarn i'w plant. Dywedodd ei bod yn bwysig cynnwys rhieni tra bydd eu plant yn blant (yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Roedd un ymateb dienw yn tynnu sylw at y ffaith y byddai gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn straen aruthrol i blant â rhai anhwylderau, ac y byddai hynny'n andwyol iawn. Dywedodd mai'r rhieni sydd fwyaf tebygol o fod eisiau'r hyn sydd orau go iawn i'r plentyn/person ifanc ac na fydd gan gyfaill achos neu eiriolwr arall yr un wybodaeth fanwl unigryw am y plentyn/person ifanc. Dywedodd fod yn rhaid caniatáu i riant wneud yr apêl i'r Tribiwnlys ar ran ei blentyn os mai dyna yw dymuniad y person ifanc.

**Eiriolaeth annibynnol**

Roedd nifer, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prif Seicolegwyr Addysg (Cymru), yn cefnogi'r ddarpariaeth yn y Bil drafft ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a chyfeillion achos i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd Plant yn dymuno eglurder ynghylch sefydlu trefniadau cynghori a gwybodaeth annibynnol a phryd y byddai'n rhaid troi at wasanaethau eiriolaeth annibynnol neu gyfeillion achos mewn anghydfod.

Gofynnodd nifer o sefydliadau'r trydydd sector am gadarnhad y byddai'r gwasanaethau hyn yn annibynnol ac nad yr awdurdodau lleol fyddai'n eu rhedeg. Awgrymwyd datblygu canllawiau cenedlaethol i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cadw ar wahân i'r graddau priodol, eu bod yn annibynnol ac o safon ofynnol gyson, a hefyd bod yna ganllawiau i sicrhau cysondeb o ran y mecanweithiau cwyno.

Galwodd nifer o ymatebwyr hefyd, gan gynnws Guide Dogs Cymru/Blind Children UK Cymru am i eiriolaeth annibynnol fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY drwy gydol prosesau a chamau'r fframwaith ADY. Nodwyd bod y Bil drafft yn cyfyngu ar fynediad i wasanaethau eiriolaeth i'r rheini sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru o dan y Ddeddf hon; y rheini sy'n ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu'r rheini sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau a wneir o dan adran 37 [osgoi a datrys anghytundebau].

**Apelau**

Codwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr o awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector ynghylch y ffaith nad yw'r fframwaith apelio newydd yn datrys hen broblemau yn ymwneud â'r ffaith nad yw TAAAC yn gallu rhoi cyfarwyddyd i gyrff iechyd. Nododd rhai fod awdurdodau lleol, ar hyn o bryd, yn gorfod cyllido asesiadau, adroddiadau a darpariaeth breifat er mwyn datrys anghydfodau ynghylch darpariaeth iechyd, yn enwedig lle mae gan rieni adroddiadau asesu preifat. Roedd TAAAC ei hun yn galw am i'r hawliau apelio gael eu hehangu i gynnwys darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau addysg. Ychwanegodd hefyd fod angen mecanwaith o fewn y Bil i orfodi gorchmynion y Tribiwnlys er mwyn i'r system apelio fod yn effeithiol. Adleisiwyd y ddau bwynt hyn gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Awgrymodd nifer fach y dylai aelodau'r Tribiwnlys gynnwys cynrychiolwyr asiantaethau eraill sy'n cyfrannu at ddarpariaeth ADY plentyn, gan gynnwys asiantaethau iechyd.

Awgrymodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd, os mai ysgolion a sefydliadau addysg bellach fydd yn bennaf gyfrifol am ddarpariaeth ADY, y bydd angen dod â nhw o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Ar hyn o bryd, mae ei bŵer ef i ymchwilio i gwynion wedi'i gyfyngu i ddatganiadau AAA awdurdodau lleol. Nid yw datganiadau ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn rhan o'i gylch gwaith.

## Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall

## Mae arnon ni eisiau rhwystro unrhyw anghytuno ynghylch cynllun y plentyn. A helpu i roi trefn ar bethau'n gyflym pan fydd anghytuno. Fydd y ddeddf newydd yn gwneud hyn?

| | |
|---|---|
| Bydd | 83% |
| Na fydd | - |
| Ddim yn siwr | 17% |

## Ydych chi'n meddwl bod y ffordd o apelio yn glir?

| | |
|---|---|
| Ydw | 83% |
| Nac ydw | - |
| Ddim yn siwr | 17% |

Gwnaeth un y sylw bod angen newid sylfaenol yn y diwylliant os yw'r fframwaith statudol a gynigir yn y Bil drafft i fod yn effeithiol. Gofynnwyd am fwy o fanylion am y broses apelio. Nododd nifer hefyd y byddai cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses yn gam cadarnhaol.

## <u>Cwestiwn 6</u>:  Dogfennau ategol

## A fyddech cystal â nodi unrhyw adborth defnyddiol sydd gennych ynghylch y dogfennau ategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, h.y. y Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), yr holl Asesiadau o Effaith a'r Cod ADY drafft (a gyhoeddir yn yr hydref).

### Cyffredinol

Daeth nifer o sylwadau positif i law ynghylch cyhoeddi'r dogfennau ategol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.  Croesawyd y dogfennau hawdd eu deall fel canllaw defnyddiol a throsolwg o'r cynigion. Nododd rhai, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Rhwydwaith Therapi Galwedigaethol Pediatrig Cymru Gyfan, a Chymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, fod y dogfennau yn gynhwysfawr, wedi'u strwythuro a'u cyflwyno'n dda, ac yn helpu i egluro manylion y Bil drafft.

Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon mewn perthynas â'r diffyg manylion yn y Bil drafft a'r bylchau yn y dogfennau ategol, yn benodol y fersiwn ddrafft o'r Cod, a amharodd ar allu pobl i wneud sylwadau neu ddeall sut y byddai'r system yn gweithio'n ymarferol.

Ar y llaw arall, awgrymodd rhai y dylid ystyried cymhlethdod a hyd y dogfennau ategol a'r angen i'r wybodaeth fod yn hwylus i bawb ei darllen.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr o awdurdodau lleol, addysg a'r trydydd sector sylw ynghylch y broses ymgynghori gyffredinol.  Awgrymwyd sut i sicrhau ymgysylltu effeithiol â phlant a phobl ifanc. Nodwyd hefyd ei bod yn anffodus nad oedd y Cod drafft ar gael pan lansiwyd yr ymgynghoriad ar y Bil drafft ym mis Gorffennaf. Cododd eraill bryderon ynghylch yr amserlen a phwysigrwydd ymgynghoriad, ar y Cod yn benodol.

**Y Memorandwm Esboniadol drafft**

Soniodd nifer am ba mor fuddiol oedd y Memorandwm Esboniadol drafft. Nododd Gyrfa Cymru, er enghraifft, ei fod yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o'r rhesymeg dros gyflwyno'r Bil, gan gynnwys manylion am y systemau presennol, costau dulliau gweithredu posibl, yr ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal a gwerthusiad o'r opsiynau posibl i weddnewid y broses. Fodd bynnag, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru mai ychydig iawn y mae'r ME yn ei wneud i ehangu ar ystyr darpariaethau'r Bil. Nododd y Comisiynydd hefyd  ei bod yn anodd deall sut y dylid dehongli'r darpariaethau a'r hyn y bwriedir ei wneud.

Roedd TAAAC yn cefnogi tri phrif amcan y Bil drafft ac, yn gyffredinol, y 10 prif nod y mae'r Bil drafft am eu cyflawni, fel y mae'r ME yn eu nodi.

Nododd nifer fawr o ymatebwyr unigol, ac o awdurdodau lleol a'r trydydd sector, nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, sydd wedi'i gynnwys yn y ME drafft, yn rhoi digon o ystyriaeth, o bell ffordd, i effaith y cynigion deddfwriaethol ar y sector addysg, o ran llwyth gwaith a chost ariannol. Roeddent hefyd yn pryderu ynghylch yr awgrym y byddai'r diwygiadau yn niwtral o ran cost unwaith y byddent wedi'u gwneud. Nid oeddent o'r farn bod hynny'n realistig.

Yn benodol, gwnaed y pwyntiau canlynol:
- er mwyn i'r system newydd weithio'n effeithiol, bydd angen digon o adnoddau a systemau monitro wrth ei gweithredu ac wedi hynny;
- byddai goblygiadau amrywiol iawn o ran y cymorth y byddai ei angen wrth ehangu'r ystod oedran i gynnwys y grŵp 16-25, gan gynnwys gweithlu mwy a digon o gyllid i weithredu'r Bil drafft, gan gynnwys hyfforddiant, gweithredu CDUau a mapio darpariaeth;
- bydd angen ystyried y costau ychwanegol posibl i awdurdodau lleol wrth gynnig darpariaeth a gwasanaethau ADY os yw ysgol neu sefydliad addysg bellach o'r farn bod mater addysgol penodol y tu hwnt i'w gallu i ddelio ag ef;
- gofynnwyd am eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer dirprwyo cyllid rhwng awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â darpariaeth ADY a monitro'r trefniadau gwario hynny i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu bodloni;
- galwyd am eglurder hefyd ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r goblygiadau o ran adnoddau a llywodraethu yn sgil ehangu darpariaeth eiriolaeth o ansawdd;
- roedd yna bryderon ynghylch y lefel uwch o fiwrocratiaeth yn sgil cynnwys cyrff iechyd yn y broses o baratoi CDUau.

**Y Cod ADY drafft**

Gwnaeth nifer o unigolion a sefydliadau'r trydydd sector sylw ar ba mor ddefnyddiol yw'r fersiwn ddrafft o'r Cod i'w hystyried ochr yn ochr â'r Bil drafft, a'r eglurder roedd yn ei roi ynghylch bwriadau'r Bil a mecanweithiau gweithredol disgwyliedig y diwygiadau.

Gofynnwyd am sicrwydd gan nifer o ymatebwyr y bydd cyfle pellach i ystyried y Cod a gwneud sylwadau arno yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben.

Nododd nifer feysydd penodol yn y Cod drafft lle roedd angen mwy o fanylion ac eglurder, gan gynnwys:

- cyfrifoldeb am gyllid ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a chyfnodau, yn benodol 16-25;
- rôl, cyfrifoldebau a gofynion hyfforddi Cydlynwyr ADY a swyddogaethau Swyddogion Meddygol/Clinigol Dynodedig;
- y diffiniadau o ADY a DDdY;
- proses a chynnwys CDU;
- rôl a dyletswyddau awdurdodau lleol o ran rheoli a datblygu CDUau, gan gynnwys atgyfeiriadau gan ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac amodau prin;
- y broses o wneud penderfyniad ynghylch rhoi plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad addysgol, gan gynnwys sut rhoddir ystyriaeth i'w safbwynt ef;
- y cymorth disgwyliedig gan bob asiantaeth yn ystod adegau pontio allweddol ym mywyd plentyn neu berson ifanc;
- sut bydd y system newydd yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal, materion trawsffiniol, dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref a'r rheini sydd yn y ddalfa.

Daeth nifer o awgrymiadau i law hefyd ynghylch gwella'r Cod drafft, gan gynnwys:

- nodi'r gofynion gorfodol sydd ar bawb perthnasol sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf;
- defnyddio 'rhaid' ('must') a 'dylai' ('should') yn hytrach na 'gall' ('may/might');
- amlinellu'r cyfrifoldebau a'r gofynion ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â phlant a'u rhieni ac â phobl ifanc wrth ddatblygu CDU;
- cynnig ffynonellau cyngor annibynnol drwy gydol y broses ADY;
- dilyn egwyddorion sy'n seiliedig ar Hawliau Dynol wrth greu'r ddarpariaeth a'r broses;
- pennu y dylai fod gan blant a phobl ifanc ag anableddau penodol hawl i CDU bob amser;
- creu llwybrau darpariaeth sy'n benodol i anableddau er mwyn cefnogi gweithwyr proffesiynol wrth asesu, yn enwedig ar gyfer anghenion prin;
- adrannau neu ganllawiau penodol ar sut y bydd y system newydd yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar a dysgwyr 16-25 oed;
- cryfhau'r gallu i ofyn am gyfraniad gwasanaethau arbenigol allanol ym mhob cam o'r broses ADY ac ar gyfer anghenion ar wahanol lefelau yn hytrach nag mewn achosion difrifol neu gymhleth yn unig;
- cynnwys rôl benodedig ar gyfer Seicolegwyr Addysg yn y broses;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu cefnogi i gael y ddarpariaeth addysgol sy'n bodloni eu hanghenion yn y ffordd orau, boed yn y brif ffrwd neu drwy ddarpariaeth arbenigol;
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn ei gwneud yn hysbys beth yw'r trefniadau osgoi a datrys anghytundebau a'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael drwy gydol y broses.

I gyd-fynd â'r Cod, gofynnodd nifer sylweddol am i dempled CDU safonol gael ei ddatblygu, ynghyd ag enghreifftiau o achosion a diagramau llif er mwyn helpu i ddisgrifio arferion gorau a sicrhau cysondeb.

**Y Gymraeg**

Gwnaeth nifer y sylw y dylid dilyn egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwyd hefyd

na ddylai darparu neu weinyddu gwasanaethau yn Gymraeg arwain at oedi nag at wasanaeth llai boddhaol i'r defnyddiwr.

Er mwyn dilyn yr egwyddor honno, argymhellwyd cynnwys y gofynion gorfodol canlynol yn y Cod i sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau, dyletswyddau a hawliau:
- yr hawl i ddarpariaeth Gymraeg ac i gael cyfrannu at bob proses drwy'r Gymraeg, gan gynnwys yr elfen amlasiantaethol;
- rhaid parchu dewis iaith y plentyn, ei riant, neu'r person ifanc, gan gymryd camau ymarferol i sicrhau bod hyn yn digwydd, ee darparu'r wybodaeth a'r cyngor yn Gymraeg, naill ai ar bapur, yn electronig neu ar lafar;
- dylai'r wybodaeth orfodol yn y CDU nodi (a) yr iaith a ddefnyddir i ddarparu addysg y plentyn neu'r person ifanc ar hyn o bryd, a (b) dewis gyfrwng cyfathrebu'r plentyn, y rhiant neu'r person ifanc;
- yr hawl i gyfrannu at y broses o ddatrys anghydfod a'r broses apelio drwy'r Gymraeg, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol.

Nododd CYDAG y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ystyried costau gweithredu'r Bil yn gwbl ddwyieithog.

Roedd yna bryderon nad oedd y cyfeiriadau at safonau'r Gymraeg yn y Cod drafft a'r Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg yn berthnasol i ysgolion. Gofynnodd nifer am eglurder ynghylch y dyletswyddau statudol a gâi eu rhoi ar ddarparwyr ADY i sicrhau DDdY drwy'r Gymraeg a chynigiwyd y dylid addasu'r Bil drafft i gau unrhyw fylchau yn y dyletswyddau hynny.

Gwnaeth nifer y sylw hefyd fod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn dilyn dull cyffredinol o asesu effaith y Bil drafft ar bob dysgwr ag ADY ac nad oedd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion a gofynion o ran darpariaeth Gymraeg, gan gynnwys sut byddai'r cynigion deddfwriaethol yn helpu i'w cyflawni.

**Gweithredu**

Daeth nifer o sylwadau i law ynghylch yr amserlen i weithredu'r diwygiadau. Cododd TAAAC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful bryderon ynghylch sut y byddai mynd ati'n raddol i weithredu'r Bil a'r Cod yn gweithio ochr yn ochr â'r system bresennol. Yn benodol, nododd y Tribiwnlys fod effeithiolrwydd y system bresennol eisoes wedi'i danseilio yng ngoleuni'r diwygiadau sydd ar y gweill a chwestiynwyd a fyddai hynny'n parhau yn ystod y broses bontio.

Nododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys NDCS Cymru a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), anghenion yn ymwneud â gweithredu'r diwygiadau hefyd, gan gynnwys:
- eglurder ynghylch cyflwyno CDUau yn raddol ym mhob lleoliad dros gyfnod o ddwy flynedd ac a fyddai rhai grwpiau dysgwyr yn cael blaenoriaeth;
- mwy o fanylion am hyfforddiant ar y gofynion statudol a pha grwpiau proffesiynol fyddai'n ei gael;
- eglurder ynghylch y rhaglen ymgysylltu a chymorth sy'n parhau;
- cynnig y dylai fod gan Estyn rôl yn y gwaith o fonitro darpariaeth ADY, asesu, systemau cymorth, cwynion ac anghydfodau fel rhan o'i fframwaith arolygu llesiant disgyblion;
- dylid rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â choladu data a sicrhau ansawdd y system newydd.

**Sylwadau eraill**

Nododd nifer fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y Bil a'r Cod drafft yn cyd-fynd â deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall

Roedd llawer o'r sylwadau uchod yn cael eu hadleisio yn yr ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall. Yn benodol, roedd yna alw am fwy o eglurder, yn enwedig yn y Cod, gan gynnwys ynghylch pwy sy'n gyfrifol. Awgrymwyd y dylai'r Cod greu mwy o ofynion ac roedd yna bryder ynghylch y disgwyliadau o rôl y Cydlynydd ADY. Dywedodd un ei bod yn rôl eithriadol o eang.

## Cwestiwn 7:

## Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Ail-bwysleisiodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys CYDAG, eu barn bod nifer o elfennau o'r Bil drafft i'w canmol, gan gynnwys:

- egwyddorion y Bil;
- y gwelliannau i'r fframwaith a'r prosesau presennol;
- ehangu'r ystod oedran ar gyfer hawliau a mesurau amddiffyn i 25 oed; a
- cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu sylwadau'n cael eu casglu yn ystod y broses.

Fodd bynnag, gwnaeth rhai rhanddeiliaid achub ar y cyfle i ailadrodd eu pryderon am y Bil drafft. Yn benodol, pryderon ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos fel pai'r ymateb graddedig yn dod i ben; gallu a chapasiti staff a gwasanaethau yn y system i ymdopi â nifer y plant a phobl ifanc a fyddai'n gymwys i gael CDU statudol; a thynnu rhieni o'r broses benderfynu pan fydd plentyn yn cyrraedd 16 oed.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr gyflwyno cynigion y dylid eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu'r Bil ymhellach. Mae rhai ohonynt eisoes wedi'u hamlinellu mewn atebion i gwestiynau ymgynghori penodol, gan gynnwys:

- sicrhau bod y lefel briodol o adnodd a chapasiti yn eu lle ar draws y sector addysg ac asiantaethau eraill i weithredu'r system newydd;
- rhoi hawl i blant, pobl ifanc a rhieni gael unrhyw ran o'r broses ADY yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u dewis iaith;
- rhoi dyletswydd ar asiantaethau eraill, megis cyrff iechyd, i asesu a sicrhau DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY;
- cryfhau'r pwerau gorfodi/cydymffurfio ar gyfer y Tribiwnlys er mwyn sicrhau bod asiantaethau eraill yn cydymffurfio â'u gofynion o ran darparu gwasanaethau;
- rhoi ystyriaeth i gynnig DDdY i ddysgwyr mewn ysgolion na chynhelir ac ysgolion arbennig sy'n addas ar gyfer anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu'n gweddu i'w barn neu ddymuniadau.

Gofynnwyd hefyd am eglurhad neu fanylion pellach ynghylch elfennau penodol o'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys y canlynol:

- y cyfrifoldebau a'r gofynion o ran cymwysterau ar gyfer y Cydlynydd ADY a'r Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig (DCO/DMO);
- rôl gwasanaethau arbenigol yn ystod y broses, megis Seicolegwyr Addysg;
- y trefniadau hyfforddi ar draws y sector addysg ac asiantaethau eraill i sicrhau bod y diwygiadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol;
- dyletswyddau'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill mewn perthynas â datblygu CDUau yn ystod y blynyddoedd cynnar ac ar gyfer dysgwyr 16-25 oed;
- y trefniadau a'r cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau ansawdd y system newydd yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt;
- y rhestr o'r partneriaid craidd y mae gofyn iddynt gyfrannu at ddatblygiad CDU;
- y trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, materion trawsbynciol, plant sy'n derbyn addysg yn y cartref, a phlant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol;
- y trefniadau cludo ar gyfer plant a phobl ifanc.

# 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgyrchoedd

Cafwyd yn union yr un ymatebion i'r ymgynghoriad gan nifer o ymatebwyr a oedd yn gysylltiedig â dwy ymgyrch wahanol. Roedd un ymgyrch yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a’r llall yn cefnogi'r ymateb a ddarparwyd gan NDCS Cymru a Sense Cymru.

## Yr ymgyrch yn ymwneud â'r Gymraeg

Cafwyd cyfanswm o 31 ymateb tebyg drwy ffurflen ymateb Llywodraeth Cymru. Gwnaeth pob un o'r ymatebwyr ddewis anghytuno ym mhob un o’r pum cwestiwn penodol, er bod y sylwadau ategol yn cynnwys adborth cadarnhaol yn ogystal â negyddol. Mae eu sylwadau ategol wedi'u crynhoi isod:

**Yr ystod oedran 0-25**

Croesawyd mewn egwyddor y cynnig i ehangu’r ystod oedran. Fodd bynnag, roedd pryderon sylweddol am y capasiti a'r arbenigedd yn y gweithlu i gyflenwi darpariaeth Gymraeg ar draws yr ystod oedran 0-25.

**Buddiannau plant a phobl ifanc**

Cydnabuwyd y byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oedd sicrwydd o ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg a'r risg y gallai hyn arwain at wahaniaethu yn erbyn y grŵp hwn.

**Y Gymraeg**

Wrth sôn am greu fframwaith cyfreithiol cadarn, tynnwyd sylw yn yr ymateb i'r ymgyrch at y ffaith nad oedd cyfeiriad yn y Bil drafft at egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Awgrymwyd y dylai fod gofyniad statudol ar wyneb y Bil i sicrhau bod pob cam o'r broses ar gael yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â dewis iaith y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cod restru'r gofynion gorfodol mewn perthynas â'r Gymraeg ac egluro'r cyfrifoldebau, yr hawliau a'r dyletswyddau ar gyfer pob un.

**Capasiti ac adnoddau**

Dylid darparu cyllidebau, lefelau staffio, hyfforddiant a chyngor arbenigol digonol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gallu ymdopi â'r cyfrifoldeb ychwanegol o asesu, datblygu a chynnal CDU. Ystyriwyd hefyd bod angen cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ADY ymhlith y gweithlu perthnasol yn gyffredinol.

Croesawyd y disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau'r Cydgysylltydd ADY a chytunwyd y dylai fod yn rhan o'r Uwch-dîm Rheoli. Awgrymwyd y dylai'r Cod nodi hefyd bod y rôl yn un lawn-amser ac na ddylid ei chyflawni ochr yn ochr â dyletswyddau addysgu. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid penodi Cydgysylltydd ADY llawn-amser i gwmpasu pob ysgol mewn clwstwr o ysgolion bach.

### Gwaith amlasiantaethol

Croesawyd y pwyslais ar gydweithio ond nodwyd bod angen osgoi dyblygu diangen ac annog trafodaeth rhwng asiantaethau er mwyn cynllunio a darparu'n effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd pryderon ynghylch yr amser sylweddol yr oedd ei angen i gydgysylltu gwaith amlasiantaethol a’r arfer o ddefnyddio'r Saesneg i drafod neu rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Cynigiwyd y dylid cynnwys dyletswydd ar wyneb y Bil i asiantaethau gydweithio a rhannu gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw dewis iaith y plentyn, ei rieni neu’r person ifanc.

### Datrys anghydfodau

Awgrymwyd y dylai fod hawl penodol i blant a phobl ifanc a'u rhieni allu cyfrannu at broses datrys anghydfodau ac apeliadau i'r Tribiwnlys yn Gymraeg.

### Pwyntiau eraill

Soniwyd nad oedd unrhyw un o'r dogfennau ategol yn cydnabod y problemau a oedd yn gysylltiedig â sicrhau bod y ddarpariaeth ADY neu'r broses gyffredinol ar gael yn newis iaith y plant, eu rhieni neu’r bobl ifanc.

Ystyriwyd bod y cyfeiriad at safonau'r Gymraeg yn y Cod drafft yn annigonol. Nid yw ysgolion yn gorfod ymrwymo i weithredu Safonau'r Gymraeg ac mae pryderon nad yw'r safonau'n gyson o un awdurdod lleol i'r llall ac na fyddai modd gweithredu'n gyson ar draws Cymru.

## Ymgyrch NDCS Cymru / Sense Cymru

Cafwyd 73 o ymatebion tebyg drwy e-bost ar ffurf testun rhydd, sydd wedi'u crynhoi isod:

Cydnabuwyd bod rhai agweddau ar y cynigion yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, roedd pryderon y byddai rhannau o'r Bil drafft a'r Cod drafft yn tanseilio'r system a hawliau plant a phobl ifanc. Nodwyd ei bod yn hanfodol bod y system newydd ar gyfer asesu a chynllunio cymorth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gweithio'n effeithiol ar gyfer dysgwyr byddar.

### Yr ystod oedran 0-25

Nodwyd bod diffyg eglurder am y broses a'r cyfrifoldebau ar gyfer paratoi a chynnal CDU, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Soniwyd ei bod yn hanfodol bod plant â nam ar eu synhwyrau a'u teuluoedd yn cael cymorth priodol ym mhob cam o'r broses.

Mynegwyd siom y byddai'r CDUau ar gyfer y grŵp oedran 16-25 oed yn cael eu cyfyngu i'r rheini mewn addysg bellach. Nodwyd y byddai dysgwyr byddar neu ddysgwyr byddar a dall eraill yn y grŵp oedran hwn, sydd mewn prentisiaethau neu yn y brifysgol, hefyd yn elwa ar gael CDU.

**Y Cod drafft**

Gofynnwyd a fyddai modd i'r Cod egluro bod yn rhaid i blant byddar a phlant byddar a dall fod yn gymwys i gael CDU gan y byddai angen iddynt gael cymorth parhaus drwy gydol eu haddysg. Teimlwyd hefyd bod yn rhaid i'r Cod amlinellu'n glir rôl gweithwyr arbenigol proffesiynol yn yr asesiadau ar gyfer plant ag anghenion prin fel nam ar eu synhwyrau, yn enwedig wrth i ysgolion ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am baratoi CDUau. Mynegwyd pryderon hefyd nad yw'r canllawiau presennol ar CDUau a'r hawliau cyfreithiol i gael cymorth arbenigol yn amlinellu'n ddigonol brif anghenion plentyn o ran cymorth parhaus.

**Cydgysylltwyr ADY**

Nodwyd y dylai'r Cydgysylltwyr ADY gael hyfforddiant mewn sawl maes gan gynnwys ar y broses o lunio CDUau ac ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ogystal â hyfforddiant ymwybyddiaeth penodol yn ymwneud â bod yn ddall ac yn ddall a byddar.

**Datrys anghydfodau**

Soniwyd bod angen egluro’r systemau ar gyfer datrys anghydfodau, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni’r safonau gofynnol cenedlaethol. Dylid sicrhau hefyd bod gwybodaeth ar gael o'r dechrau am sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn.

**Cydweithio rhwng asiantaethau**

Ystyriwyd nad oedd y ddyletswydd ar awdurdodau iechyd i gydweithio ar CDUau yn ddigon cryf.

# 6. Crynodeb o ddigwyddiadau i randdeiliaid

## Digwyddiadau ffurfiol

Aeth 158 o bobl i'r digwyddiadau ymgynghori ffurfiol yng Ngogledd a De Cymru. Roedd pedwar gweithdy ym mhob digwyddiad a oedd yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Y diffiniad o ADY a'r grŵp oedran 0-25 oed;
- CDUau a chynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc;
- Dyheadau uchel a gwell deilliannau;
- Cydweithredu a gwaith amlasiantaethol.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd yn y gweithdai wedi'u crynhoi isod:

**Y diffiniad o ADY a'r grŵp oedran 0-25 oed**

Cytunodd y cyfranogwyr y dylai'r diffiniad o ADY ganolbwyntio ar fodloni anghenion addysgol y plentyn neu'r person ifanc a'i anghenion o ran hyfforddiant. Fodd bynnag, gofynnwyd am fwy o fanylder ar y diffiniad ac ystyried ei ehangu i gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd.

Roedd cytundeb cyffredinol mewn egwyddor i'r ystod oedran arfaethedig. Soniwyd y byddai'n helpu i sicrhau cysondeb ar gyfer y dysgwr, yn enwedig wrth drosglwyddo o'r ysgol i addysg ôl-16. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch sut y byddai'r ystod oedran 0-25 oed yn cyd-fynd â'r dosbarthiad oedran presennol ar gyfer plant ac oedolion a ddefnyddir gan y gwasanaeth iechyd.

Dywedwyd bod angen ystyried clustnodi cyllid ADY. Codwyd pryderon hefyd ynghylch capasiti a gallu staff presennol ar draws awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac ysgolion i weithredu'r newidiadau i'r system.

**CDUau a chynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc**

Cytunwyd yn gyffredinol y dylai ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol gael cyfrifoldebau penodol o ran paratoi CDUau. Nodwyd bod angen arweiniad clir yn y Bil a'r Cod ar rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth sy'n gysylltiedig â'r broses er mwyn sicrhau dull gweithio cyson. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer trefniadau'r blynyddoedd cynnar. Gofynnwyd hefyd i fyrddau iechyd gael dyletswyddau statudol penodol mewn perthynas â pharatoi, cynnal ac adolygu CDUau.

Eto, dywedodd y cyfranogwyr y dylid cael trefniadau ariannu a hyfforddiant priodol i sicrhau gweithredu effeithiol.

**Dyheadau uchel a gwell deilliannau**

Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau cydbwysedd priodol yn y Bil rhwng bodloni anghenion a dymuniadau dysgwyr ag ADY ac ystyried anghenion dysgwyr eraill. Serch hynny, roedd pryderon y byddai'r cydweithio rhwng asiantaethau yn anghyson ar draws Cymru ac roedd angen eglurder ar y cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni darpariaeth ym mhob cam o'r broses.

Cafodd y syniad o benodi Cydgysylltydd ADY i gydlynu'r ddarpariaeth ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach groeso brwd. Ond gofynnwyd am eglurder ar y cyfrifoldebau

a'r llwyth gwaith disgwyliedig ar gyfer y rôl. Nodwyd hefyd y dylai'r Cydgysylltwyr ADY feddu ar gymwysterau priodol a phrofiad helaeth, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu hyfforddiant penodol ar gyfer y rôl.

**Cydweithredu a gwaith amlasiantaethol**

Er y croesawyd yr egwyddor o gynyddu cyfranogiad, ni theimlwyd fod digon o eglurder yn y Bil drafft ynghylch y gwasanaethau arbenigol a gynigir gan asiantaethau penodol fel byrddau iechyd. Soniwyd bod angen diffiniad clir o'r rolau, y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer pob asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau arbenigol. Awgrymwyd y dylai hyn gynnwys protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth; trefniadau ariannu cytûn ar gyfer darpariaeth ADY; templed safonol ar gyfer CDU; a darpariaeth, adnoddau a chymorth dwyieithog drwy gydol y broses. Yn benodol, roedd y cyfranogwyr am weld dyletswyddau'r gwasanaeth iechyd yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o baratoi, cynnal ac adolygu CDUau.

Cafodd y syniad o greu Swyddog Meddygol/Clinigol Dynodedig o fewn byrddau iechyd ei groesawu mewn egwyddor. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch llwyth gwaith posibl y rôl a'r goblygiadau ariannol mewn perthynas â chyflawni'r darpariaethau iechyd y cytunir arnynt mewn CDU. Gofynnwyd am eglurhad pellach o'r rôl a'i chyfrifoldebau er mwyn osgoi dehongli anghyson.

## Gweithdai plant a phobl ifanc

Comisiynodd Llywodraeth Cymru hwylusydd allanol, sef *Cognition Associates*, i ymgynghori'n benodol â phlant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn casglu eu sylwadau ar y Bil drafft.

Gwnaeth cyfanswm o 267 o blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr gymryd rhan mewn 23 gweithdy yn ystod hydref 2015.

Roedd 19 gweithdy i blant a phobl ifanc gyda chyfanswm o 222 o gyfranogwyr. Cynhaliwyd y gweithdai mewn nifer o leoliadau gan gynnwys ysgolion arbennig, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, lleoliadau addysg bellach ac uned cyfeirio disgyblion, a gyda grŵp o blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n derbyn addysg yn y cartref.

Yn ogystal, cynhaliwyd pedwar gweithdy ar gyfer oedolion â diddordeb penodol yn y ddeddfwriaeth, gyda chyfanswm o 45 o gyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys gofalwyr maeth, grŵp cymorth o rieni plant â datganiad, grŵp o rieni â phlant yn y blynyddoedd cynnar a grŵp o rieni sy'n addysgu yn y cartref.

Yn y gweithdai hyn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ymateb i ddeg cwestiwn penodol a oedd yn adlewyrchu nodau craidd y cynigion diwygio. Roedd ymateb y plant a phobl ifanc i'r cwestiynau yn dangos cefnogaeth gref i'r cynigion, gyda 92% o'u plaid.

Ceir dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r gweithdai ar gyfer plant a phobl ifanc mewn adroddiad ar wahân ar wefan yr ymgynghoriad ar y Bil drafft: [http://gov.wales/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy](http://gov.wales/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy).

# 7. Y camau nesaf

Ar 28 Mehefin 2016, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru'r bwriad i gyflwyno Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ystod blwyddyn gyntaf Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth hon:
http://gov.wales/newsroom/firstminister/2016/160628legprog/?skip=1&lang=cy

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried a'u defnyddio er mwyn llywio datblygiad fersiwn nesaf y Bil a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach. Bydd cyhoeddiadau pellach yn cael eu gwneud ynghylch amseru'r ddeddfwriaeth a chyflwyno'r diwygiadau ehangach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu'r Cod ADY drafft. Caiff drafftiau pellach eu cyhoeddi i bobl gael rhoi eu sylwadau arnynt cyn llunio fersiwn derfynol ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol maes o law.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddatblygu'r Rhaglen Trawsnewid ADY a'r cynlluniau gweithredu drwy ein rhaglen ymgysylltu eang â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni, gan gynnwys drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY amlasiantaethol a sefydlwyd yn ddiweddar.

## Atodiad: Rhestr o’r ymatebwyr

| | | |
|---|---|---|
| 1 | | Llywodraethwyr Cymru |
| 2 | Hayden Llewellyn | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| 3 | Owen Hathway | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru |
| 4 | Dr Veena Bisht | Adran Iechyd Plant Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| 5 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 6 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 7 | | Ysgol St Julian |
| 8 | Keith Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 9 | Angharad Williams | Ysgol Gynradd Gymraeg Pont-Sion-Norton |
| 10 | Huw Davies | Estyn |
| 11 | Rob Williams | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru |
| 12 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 13 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 14 | Ceri-Louise Bater | Awdurdod Lleol Sir Fynwy |
| 15 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 16 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 17 | | Timau Troseddau Ieuenctid Cymru |
| 18 | Jennifer Hill | Cyngor Bro Morgannwg |
| 19 | Ruth Crowder / Karina Dancza | Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| 20 | Victoria Evangelinou Springall | Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP)/Bro Morgannwg |
| 21 | Dim manylion personol wedi'u rhoi | |
| 22 | Claire Protheroe | PACEY Cymru |
| 23 | Miss Hilary Evans | Ysgol Gyfun y Bont-faen |
| 24 | Rhian Bennett (ar ran Grŵp Llais Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc - fforwm ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed sy'n | Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr/Gweithredu dros Blant |

| | | |
|---|---|---|
| | ofalwyr) | |
| 25 | | Llywodraethwyr Cymru |
| 26 | Christine Thomas (ar ran Grŵp Ymgynghori Cydlynwyr AAA) | Grŵp Ymgynghori Cydlynwyr AAA Uwchradd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 27 | Penaethiaid Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig); Cydlynwyr AAA (gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig); Athrawon Cynghori a swyddogion o'r ALl | Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin |
| 28 | Hayli Gibson | Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni Sir Benfro |
| 29 | Mark Owen | Gyrfa Cymru |
| 30 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 31 | Mair Roberts ar ran Grŵp Ymgynghori Cydlynwyr AAA Cynradd | Grŵp Ymgynghori Cydlynwyr AAA Cynradd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 32 | Nigel Pattinson | Cymdeithas Genedlaethol y Prif Seicolegwyr Addysg (Cymru) |
| 33 | Gail John | |
| 34 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 35 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 36 | Julia Green | Coleg Sir Gâr |
| 37 | Liz Cole | Canolfan Gofal Plant Tiddlywinks |
| 38 | Mike a Chris Newman | Cymdeithas Addysgol Sosialaidd Cymru |
| 39 | Carolyn Evans | Ysgol Uwchradd y Trallwng |
| 40 | Kate Fallon | Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP) |
| 41 | Heather Duncan | Ysgol Lewis i Ferched |
| 42 | Dr Alun Flynn | Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Powys |
| 43 | | Fforwm Cydgysylltu Gofal Serennu (Grŵp o deuluoedd a gweithwyr proffesiynol o ranbarth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan) |
| 44 | Yvonne Evans | Ysgol Gynradd Brynmill |
| 45 | Zein Pereira | Afasic Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| 46 | Keith Brelstaff | Rheolwyr ADY Cyngor Sir Powys |
| 47 | | Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 48 | Gareth Payne | Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Gwynedd ac Ynys Môn) |
| 49 | Peter Jones | Guide Dogs Cymru / Blind Children UK Cymru |
| 50 | Ruth Thomas / Louise Keevil | Coleg Derwen |
| 51 | Y Parchedig Dr Philip Manghan | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| 52 | Kirsten Jones | Coleg Elidyr |
| 53 | | Y Tîm AAA, Awdurdod Lleol Ceredigion |
| 54 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 55 | Judith Rees / Judith Sargeant | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| 56 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 57 | Claire Dorer | Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Annibynnol ac Ysgolion Arbennig Na Chynhelir (NASS) |
| 58 | Meleri Thomas | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru |
| 59 | | Y Gwasanaeth Cynhwysiant, y Gyfarwyddiaeth Addysg a Thrawsnewid, Pen-y-bont ar Ogwr |
| 60 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 61 | Jennie Hughes | Y Gwasanaeth Cynhwysiant, Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd |
| 62 | | Fforwm Cymru Gyfan Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu |
| 63 | Mary Van Den Heuvel | ATL Cymru - yr undeb addysg |
| 64 | John Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (gyda chyfraniadau gan y Tîm Cynhwysiant Addysg, Fforwm Cydgysylltwyr AAA a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol). |
| 65 | Dr Lisa Hurt | Ar ran y grŵp Ymchwil Awtistiaeth Gydweithredol |
| 66 | Debbie Thomas | Cymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) Cymru |
| 67 | Rhia Favero | ERIC, Elusen Ymataliaeth Plant |

| | | |
|---|---|---|
| 68 | Alison Boulton<br>Ruth Thomas | Natspec |
| 69 | Ellis Peters | Ar ran Rhwydwaith Therapi Galwedigaethol Pediatrig Cymru Gyfan |
| 70 | Dr Meg Shepherd | Sgrinio Clyw Babanod Cymru, yr Is-adran Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 71 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 72 | Arwel George | CYDAG |
| 73 | Bernadette Byrne | Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru |
| 74 | Philip Harding | Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro |
| 75 | Sallie Durbridge | Ar ran Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) Cymru |
| 76 | Sallie Durbridge | Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrau Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 77 | Zoe Richards | Anabledd Dysgu Cymru |
| 78 | Helen Williams | Ysgol St Cyres |
| 79 | Kelly Robinson | Yr Academi Anabledd Plentyndod Brydeinig (BACD) |
| 80 | Lindsay Harvey | Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe |
| 81 | Dim manylion personol wedi'u rhoi | |
| 82 | Julian Hallett | Cymdeithas Syndrom Down |
| 83 | Sian Jones | Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| 84 | Dr Chris Llewelyn | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/CCAC |
| 85 | Yr Athro Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| 86 | Roger Thurlbeck | Ar ran Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu De-ddwyrain Cymru |
| 87 | | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| 88 | Denise Inger | SNAP Cymru (gyda chyfraniadau gan y Grŵp Ymddygiad Heriol, Rhondda Cynon Taf; Grŵp Syndrom Asperger Rhondda Cynon Taf; Ysgol Gyfun y Moelwyn, Gwynedd; Ysgol Gyfun Brynrefail, Gwynedd; Grŵp Amrywiaeth, Abertawe; Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion; Cerrig Camu, Abertawe; Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro; Ysgol Gynradd Bod Alaw, Conwy; Jigsaw, Abertawe; Ysgol Gynradd Pentrebaen, Caerdydd; Addysgwyr yn y Cartref, Abertawe; Ysgol Gynradd Parc y Rhath, Caerdydd; Ysgol Uwchradd Glan |

| | | |
|---|---|---|
| | | Clwyd, Sir Ddinbych; Grŵp Cefnogi Rhieni Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru Caerdydd a'r Fro; Swyddogion Teuluoedd a Phobl Ifanc SNAP Cymru; Buddiolwyr SNAP Cymru) |
| 89 | Lisa Rapado | Swyddog Cangen, NAS Ystradgynlais a'r Cylch<br><br>Aelod Sefydlu HOOSUP |
| 90 | Tracey Pead | Gwasanaethau Addysg Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| 91 | Ceri Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| 92 | Michelle Jones | Y Rhwydwaith Rhieni |
| 93 | | Therapïau Cwm Taf a Fforwm Partneriaeth Addysg Rhondda Cynon Taf |
| 94 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 95 | Gavin Metheringham | Adran Addysg Blaenau Gwent |
| 96 | Catherine M. Lewis | Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA) |
| 97 | | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 98 | Kevin Tansley | Ysgol Tŷ Gwyn |
| 99 | Y Parchedig Dr Philip Manghan | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| 100 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 101 | Catherine M. Lewis | Plant yng Nghymru |
| 102 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 103 | Ceri Owen | RhAG |
| 104 | | Yr Adran Therapi Lleferydd ac Iaith Pediatrig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| 105 | Philippa Ford | Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi |
| 106 | Darrell Clarke | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| 107 | Jenny Archer | Eiriolwr annibynnol Anghenion Addysgol Arbennig |
| 108 | Dave Williams | Gwasanaethau Plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 109 | Haf Eleri Williams | Ysgol Deganwy |
| 110 | Vanessa Griffin | Cyngor Dinas Casnewydd |
| 111 | Heather Vaughan / | Ysgol Gynradd Sant Woolos |

| | | |
|---|---|---|
| | Helen Bishop | |
| 112 | Dr Greg Walker | Colegau Cymru |
| 113 | (Ms) Chris Keates | NASUWT Cymru |
| 114 | Dr Alison Stroud | Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| 115 | Kathryn Williams | |
| 116 | Steph Shobiye | |
| 117 | | Sinclairslaw |
| 118 | Mrs Sandra Welsby | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru |
| 119 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 120 | Ann Sivapatham | Epilepsy Action Cymru |
| 121 | Derek Tilley | Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd |
| 122 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 123 | | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| 124 | | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| 125 | Lucy Proctor | Coleg Cenedlaethol Brenhinol y Deillion |
| 126 | Jeanette Rock | Cyngor Sir y Fflint |
| 127 | | Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin |
| 128 | Nerys Williams | Ysgol Gymraeg Sant Baruc |
| 129 | Kathryn Rudd | National Star College |
| 130 | M Jenkins | |
| 131 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 132 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 133 | Nicholas Davies | |
| 134 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 135 | Emily Cole | Mentrau Iaith Cymru |
| 136 | Keri Cole | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 137 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddienw | |
| 138 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 139 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |

| | | |
|---|---|---|
| 140 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 141 | Rachel Vaughan Jones | Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg/Seicolegydd Addysg Bro Morgannwg |
| 142 | Dim manylion personol wedi'u rhoi | |
| 143 | Meri Huws | Comisiynydd y Gymraeg |
| 144 | Bethan Davies | Ysgol y Wern |
| 145 | Ymatebydd wedi gofyn am beidio â chyhoeddi'r ymateb | |
| 146 | John Paul Jones / Karen Thomas | Ysgol Glanwydden |
| 147 | Bethan G. Payne | Ysgol Bro Pedr |
| 148 | Jo McEvoy | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| 149 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 150 | | Coleg Cambria |
| 151 | Catrin Davies | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg |
| 152 | Ruth Davies | Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr a'i chlwstwr o ysgolion cynradd. |
| 153 | Ymatebydd wedi gofyn i fod yn ddi-enw | |
| 154 | Ruth Richards | Dyfodol i'r Iaith |
| 155 | John Bramley | |
| 156 | | RNIB Cymru a Sense Cymru |
| 157 | Nick Bennett | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| 158 | Carl R. Hussey | |
| 159 | Rebecca Williams | UCAC |
| 160 – 232 | | Ymatebion i ymgyrch NDCS Cymru/ Sense Cymru |
| 233 - 263 | | Ymatebion i'r ymgyrch yn ymwneud â'r Gymraeg |